

Gwefan
www.ysgolgymraeg.cymru



e-bost
prif@ysgolgybraeg.ceredigion.sch.uk

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL
Ffôn / Tel: 01970 617613 Ffacs / Fax: 01970 636742

Prifathro / *Headteacher*: Mr R. Clive Williams

Coronafeirws - Cau Ysgolion

Mae'n siŵr eich bod wedi deall erbyn hyn bod Llywodraeth Cymru wedi gwneud y penderfyniad i gau ysgolion o ganlyniad i effaith y Coronavirus. Byddwn yn parhau ar agor tan 3.30pm ar ddydd Gwener 20fed Mawrth. Mae'r Llywodraeth yn mynd i adolygu'r sefyllfa'n gyson a byddwn yn cyfathrebu'n gyson â chi drwy wefan yr ysgol www.ysgolgymraeg.cymru wrth i fwy o wybodaeth ein cyrraedd. Cofiwch gadw llygad am ebyst o noreply@cerenet.org sy'n cael eu danfon o'r ysgol (weithiau mae'r rhain yn mynd i'ch 'Junk folder' tan i chi eu derbyn i'ch 'Inbox' arferol)

Dyma gyhoeddiad y Gweinidog Addysg ar y mater:

<https://gov.wales/statement-minister-education-kirsty-williams-school-closures-wales>

Yn y cyfamser, mae gwaith ar gyfer parhau â dysgu eich plentyn wedi'u darparu drwy'r wybodaeth a ddosbarthwyd heddiw, mae rhain hefyd ar gael ar wefan yr Ysgol Gymraeg. Cofiwch nad oes angen poeni am unrhyw agwedd o'r gwaith.

Yn ogystal, mae Cyngor Sir Ceredigion wedi darparu tudalen ar eu gwefan gyda gwybodaeth am wefannau ac apiau defnyddiol:

<https://www.ceredigion.gov.uk/digitalresources>

<https://www.ceredigion.gov.uk/adnoddaudigidol>

Mae'r Cyngor â threfniadau ar waith i rieni sydd yn gweithio yn y gwasanaethau brys, cartrefi henoed, neu'n darparu gofal i bobl yn eu cartrefi i gofrestru eu hanghenion gofal. Bydd gofal i blant y bobl hyn ar gael am ddim mewn canolfannau ar hyd a lled y sir.

Cofiwch gysylltu gyda mi os ydych chi angen unrhyw arweiniad pellach.

Mi fydd y llythyr yma ar gael ar wefan yr ysgol.

R C Williams

Pennaeth
18/03/2020

Gwefan
www.ysgolgymraeg.cymru



e-bost
prif@ysgolgybraeg.ceredigion.sch.uk

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL
Ffôn / Tel: 01970 617613 Ffacs / Fax: 01970 636742

Prifathro / *Headteacher*: Mr R. Clive Williams

Coronavirus - School Closures

I'm certain that you will have heard by know of the decision made by Welsh Government today to close schools due to the Coronavirus. We will remain open until 3.30pm on Friday 20th March. The Government will constantly review the situation and we will remain in regular contact with you through the school website www.ysgolgymraeg.cymru as more information is issued to us. Also keep a lookout for emails from noreply@cerenet.org which we send from the school (sometimes these emails appear in your Junk Folder at first until you accept them into your Inbox)

The Education Minister issued the following statement today:

<https://gov.wales/statement-minster-education-kirsty-williams-school-closures-wales>

In the meantime, we have prepared learning resources for your child through the information distributed today, copies are available on the Ysgol Gymraeg website. Please remember that there is no need to worry about any aspect of this work.

Ceredigion County Council has also provided a page on their website with information on useful websites and apps:

<https://www.ceredigion.gov.uk/digitalresources>

<https://www.ceredigion.gov.uk/adnoddaudigidol>

The Council is already making arrangements for parents who work in the emergency services, care homes or domiciliary care to register their childcare needs. Free childcare will be made available for these groups of parents at various locations throughout the County.

Please do not hesitate to get in touch with me if you require a further assistance.

This letter will be available on the school website.

R C Williams

Headteacher

18/03/2020